

Cymraeg – Iaith Gyntaf

Amser – 1.5 awr (90 Munud)

Atebwch ddau gwestiwn, UN o Adran A ac UN o Adran B

ADRAN A - Gwerthfawrogi Llenyddiaeth

1. Ysgrifennwch werthfawrogiad o **naill ai** (a) y gerdd neu (b) y darn rhyddiaith isod gan roi sylw manwl i'r cynnwys a'r arddull.

(a)

‘Gŵr diarth yw yfory’

Gŵr diarth yw yfory; dyn a wŷr

Ai gwg ai hanner gwên sydd ar ei wep,

A fydd yn agor drysau'r dydd yn llwyr

Neu'n dewis troi tu min a'u cau yn glep.

Mae ei lygad arnom er na welwn o

Yn llechu ar y trothwy fel hen gi'n

Clustfeinio ganol nos drwy dwll y clo

Ar donfedd ein breuddwydion dyfnaf ni.

Hwn yw'r cosi rhwng ein bodiau, y cnoi

Ym mhwill y stumog lawn, ac er nad yw'n

Datgelu'i feddwl inni, yn ein troi

A throsi hwn yw'r si ar gwr ein clyw.

Amynedd yw ei ddawn drwy'r oriau mân

Cyn hyrddio'r byd yn ddall i'r golau glân.

(b)

Rwy'n dal i ofyn imi fy hun tybed ble rwy'ti. Roeddwn i eisiau gwybod pam na ddest ti i'r ysgol y diwrnod hwnnw. Roeddwn yn gobeithio dy fod wedi mynd ar daith ac y byddwn yn cyrraedd yr ysgol ac y byddet yn ôl yn y dosbarth neu yn ein sedd arferol ar y bws. Roeddwn i wedi dweud wrtha i fy hun nad oedd dim wedi digwydd—dy fod di yn ôl pob tebyg wedi mynd adref i Sbaen, fel y soniaist ti o'r blaen. Roeddwn i'n gwybod na fyddet ti ddim wedi gadael heb ffarwelio.

Rwy'n dal i gofio am y tro cyntaf inni gyfarfod. Roedden ni ar y bws ysgol. Wyt ti'n cofio hynny? Roeddwn i newydd ddod i fyw i'r dref, a ti oedd y person cyntaf i ddweud helo. Roedd gen ti ryw ffordd ryfedd o beidio â phoeni am beth roedd pobl eraill yn ei feddwl amdanat ti. Ond, os oedd rhywun pwysig iti yn cael ei fwlio neu ei drin yn annheg roeddet ti'n barod i gwffio drostyn nhw bob amser. Roeddwn i'n gwybod y diwrnod hwnnw dy fod di'n berson anhygoel. Dy fod di'n sbarc o oleuni yn ein hysgol uwchradd ddiflas ni. Roeddet ti'n hudolus.

Glywaist ti fod Ceri a minnau wedi dod yn ffrindiau? Wyt ti'n cofio imi ddweud wrthot ti fy mod i'n meddwl ei bod hi'n boen? Roeddwn i'n anghywir. Roeddet ti bob amser yn gwybod pwy oedd yn ddiffuant a phwy oedd yn ffals. Roeddet ti'n wych am farnu gwir gymeriad pobl. Fe wnaethon ni ddechrau siarad gyda'n gilydd gwpl o ddyddiau ar ôl iti beidio â dod i'r ysgol. Roedden ni'n methu deall pam nad oedden ni – na neb arall – ddim wedi clywed gen ti. Efallai dy fod di'n disgwyl babi. Efallai dy fod di wedi rhedeg i ffwrdd. Roedd pob math o syniadau gennym ni.

Rydyn ni'n dal i siarad amdanat ti. Yn dal i geisio dyflalu ble rwy'ti a beth rwy'ti'n ei wneud. Sut olwg sydd arnat ti erbyn hyn nawr. A fydden ni yn dy adnabod di heddiw petaen ni'n dy weld? A fyddet ti yn ein hadnabod ni? Rwy'n dal i weld dy ben moel! Wyt ti'n cofio pan wnest ti siafio dy wallt? Am

sbort! A phobl yn dweud pethau cas amdanat ti – ac amdana i wedyn am fy mod i'n ffrindiau gyda ti. Roeddets ti'n flin – ac yn ddewr – yn fy amddiffyn.

Ac rwy'n dy gofio hefyd yn troi at y merched ar y bws un a rhoi sioc anferthol iddyn nhw. Roedden nhw'n dweud pethau gwirion amdanat ti a heb sylweddoli dy fod di'n deall Cymraeg. Ddim yn disgwyl i rywun yn edrych yn debyg i ti gydag enw fel dy enw di fod yn rhugl. Ond y cof sy'n aros yw'r hwiangerdd yna a ddysgaist ti gan dy fam, am hiraeth a ffrindiau. Oeddets ti'n gwybod wrth ei chanu gymaint roeddwn i'n gweld eisiau fy hen gartref? Wyt ti'n deall gymaint yw fy hiraeth o hyd?

ADRAN B - Defnyddio'r Iaith

Atebwch **naill ai 2** neu 3.

2. Cyfieithwch y darn canlynol i Gymraeg llenyddol safonol:

Explore Cardiff Bay

This area of the city was hugely significant in the 1900s, being the main way of transporting coal from South Wales to the rest of the world. It has since been reinvented into a waterfront escape from the city's bustle. The Senedd, home to the National Assembly for Wales, is nearby, as is the Norwegian Church in which author Roald Dahl was baptised. There are loads of independent coffee shops, bars and restaurants to try out as you explore the area.

It's easy to travel from the Bay to Penarth Marina. There's a flat tarmac pathway so it's ideal for pushchairs or bikes. There's a great kids' playground featuring pretend shipwrecks buried in sand. Taxi boats run at least hourly to Penarth Marina. If you've got your four-legged friend with you, make sure to visit the various coffee shops around the Bay – they're all dog friendly and serve food into the evenings.

3. Ailysgrifennwch y darn isod gan ffurfioli'r iaith (heb newid yr ystyr) a chywiro'r holl wallau ac nid y rhai a danlinellwyd yn unig. Yna esboniwch unrhyw ddeg o'r gwallau mewn deg o'r ymadroddion a danlinellwyd (gan ddefnyddio'r termau gramadegol priodol hyd y gellwch).

Helo, pawb— a croeso i rhifyn arall o ein papur ar-lein. Gobeithio fyddwch yn mwynhau darllen e. Os oes ganddoch rhywbeth i rannu, ac os nid ydych chi'n rhy prysur, cofiwch cysylltu. Rydym pob amser yn croeswi cyfraniadau gan ein darllenwyr. Mae rhai bobl yn anfon storiâu am ei gwyliau. Mae pobl arall yn anfon lluniau o'u anifeiliaid anwes. Neu beth am eich hôff jôc? Y fath yna o beth. Cofiwch hefyd am ein cwis wythnosol. Y prif wobwr yr wythnos hwn yw xbox! Ceir fanylion llawn ar waelod y colofn hon ac mae'n hawdd i gymryd rhan. Mwynhawch!